CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 9 IONAWR 2018

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maes – I C Thomas

Cynghorwyr
E R Hughes, A Hopcyn, R Thomas, W L Davies, D Jones, C Williams, K Jones, S Sage, E Lovgreen (cofnodi), C Larsen, W R Owen, M Sarnacki, J W Parry

1. Ymddiheuriadau

W T Owen, K Richards, B Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Yn ogystal â'r isod, bu'r Maer a'r Diprwy Faer yn Gisda bore dydd Nadolig, pan oedd bwyd yn cael ei baratoi ar gyfer y di-gartref. Ymwelodd y Maer hefyd ag Ysbyty Eryri a Bron Seiont Newydd bore dydd Nadolig, i ymweld â'r staff lawn gymaint â'r cleifion. Maent yn gwneud gwaith ardderchog.

07.12.2017 Noson Nadolig y Cyngor

13.12.2017 Cyngerdd Nadolig Ysgol Pendalar

Ymwelwyd hefyd â chartefi henoed y dre cyn y Nadolig- Marbryn, Willow Hall, Gwynfa, Plas Maesincla, Frondeg yn ogystal ac Ysbyty Eryri a Bron Seiont Newydd. Clywyd bod y Cyng W T Owen wedi bod yn dioddef o'r eryr dros yr ŵyl, ac roedd y cyn-gynghorydd Brian Williams dal yn Ysbyty Eryri.

3. Datgan Buddiant Personol

Cyng M Sarnacki ar gyfer Eitem 12 (Uned Fasgwlar)

4. Eitemau Brys. Er gwybodaeth, neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Nid oedd unrhyw eitem frys, ond tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r Wardeiniaid Llifogydd aros ar ôl ar ddiwedd y cyfarfod. Atgoffwyd pawb hefyd bod Cronfa'r Maer yn dal i fod ar agor tan diwedd y mis.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor 5 Rhagfyr 2017

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir (**unfrydol)**

Gan nad oedd y Cyng W R Owen yn bresennol yn y cyfarfod pan gafodd ei enwebu ar y Pwyllgor Gwaith Penodol, gofynnwyd iddo a oedd yn fodlon bod yn aelod, ac fe gytunodd.

6. Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau, rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (**unfrydol)**

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

8. Llywodraeth Cymru – penodi aelodau i CIC

Gan mai mater i unigolion, ac nid y Cyngor oedd hwn,

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

9. Cyfraith Cynllunio

(a) E-bost Unllais
Maent yn gofyn am ymateb erbyn 1/3/18, felly cynigiwyd bod y mater yn cael ei ohirio tan gyfarfod Chwefror o'r Cyngor.

Penderfynwyd (unfrydol)

(b) Gohebiaeth Ffion Bevan
Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

10. **E-bost Cyngor Gwynedd**

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

11. **Unllais Cymru**

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol), ac ysgrifennu llythyr yn gofyn a oedd unrhyw beth y gallem ei wneud yn wyneb y ffaith nad oedd digon o wasanaethau ac adnoddau ar gyfer CAMHS a diffyg darpariaeth unedau i roi hyfforddiant yng Ngharchar Berwyn **(unfrydol)**

12. **Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Penderfynwyd

Derbyn y llythyr, a gwahodd Evan Morgan i'r Cyngor er mwyn iddo glywed pryderon y Cynghorwyr ynglŷn â chanoli gwasanaethau yn Ysbyty Glan Clwyd, gan longyfrach, yr un pryd, y Bwrdd am lwyddo i benodi 4 arbenigwr yn eu maes i'r adran newydd. Cytunwyd i'w wahodd i gyfarfod Chwefror, ond os nad oedd yn rhydd, efallai ei wahodd ryw brynhawn.

(unfrydol)

13. **Llythyr Nadolig Unllais Cymru**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth **(unfrydol),** gan wneud yn siŵr ein bod yn atgoffa ein hunain ein bod yn anelu at Wobr Arloesi ar gyfer Ionawr 2019.

14. **Panel Adolygiad Annibynnol**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

(unfrydol)

15. **E-bost Laurie Davies – Adolygiad CTC**

Penderfynwyd

Diolch iddynt am gynnig dod i ymweld â'r Cyngor, ond ymddiheuro nad oedd 19/1/18 yn gyfleus, a bod croeso iddynt gasglu gwybodaeth dros y ffôn.

(**unfrydol)**

16. **Cwestiynau**

Holwyd am ddyddiad cyfarfod nesaf y Panel Adloniant, i gael de-briff ar ôl y Nadolig a pharatoi ar gyfer Gorymdaith Gŵyl Dewi. Cytunwyd bod hyn yn digwydd ym mis Chwefror.

Holwyd am ddyddiad cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith Penodol, gan fod grwpiau allanol eisoes wedi mynegi diddordeb mewn cydweithredu. Cytunwyd i roi blaenoriaeth i hyn pan ddaw'r Clerc yn ôl at ei gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30.